



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar  
gyfer Datblygu Gwledig;  
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig  
European Agricultural Fund for  
Rural Development  
Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Diweddariad am Brosiect ar Ddiwedd Blwyddyn Ariannol – Sut i Lenwi'r Ffurflen

## Cynnwys


RPW Ar-lein – Hafan.....	1
Dechrau Cais .....	2
Parhau â Chais / Dechrau Eto .....	3
Cyflwyniad .....	4
Hysbysiad Preifatrwydd .....	6
Manylion y Prosiect.....	7
Cyflwyno .....	9
Camgymeriadau, Gwybodaeth a Chrynodeb.....	9
Datganiadau ac Ymrwymadau .....	9
Cyflwyno .....	10
Cadarnhau Cyflwyno.....	10

## RPW Ar-lein – Hafan

Yn RPW Ar-lein, cliciwch ar y tab Hafan fel y dangosir ar y sgrinlun i fynd i'r sgrin Hafan.



Yn yr adran Dechrau Ffurflen ar waelod y sgrin Hafan, cliciwch ar y ddolen Ffurflen Diweddariad am Brosiect ar Ddiwedd y Flwyddyn Ariannol, fel y dangosir yn y sgrinlun, i fynd at y ffurflen.



## Dechrau Cais

Mae'r dudalen hon yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol cyn ichi ddechrau llenwi'r ffurflen. Mae'n cynnwys dolenn i'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid, eich Manylion Cwsmer a'ch Dewisiadau Ar-lein. Dylech wirio'r rhain a'u diwygio os nad ydynt yn gywir, cyn ichi ddechrau llenwi'r ffurflen. **Sylwer:** Os ydych yn cael unrhyw drafferth wrth ddefnyddio RPW Ar-lein, dylech gysylltu â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid. Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â llenwi'r ffurflen nad ydynt yn cael eu hateb yn y canllawiau hyn, cyfeiriwch at yr adran [Cyflwyniad](#) yn y canllawiau hyn neu at yr ffurflen ei hun.

### Dechrau Cais dechrau cais neu hawliad

Rydych wedi gofyn am gael llenwi'r cais canlynol ar-lein: **Ffurflen Diweddariad am Brosiect ar Ddiwedd Blwyddyn Ariannol.**

Bydd RPW Ar-lein yn gofyn i chi am yr wybodaeth sydd ei hangen ar y ffurflen. Drwy ddechrau llenwi'r ffurflen ar-lein, nid ydych yn ymrwmo i'w chyflwyno ar-lein; gallwch adael y broses ar unrhyw adeg. Os ydych chi'n gadael y ffurflen, gallwch ddychwelyd yn ôl ati rywbryd arall i'w chwblhau. Bydd RPW Ar-lein wedi arbed yr wybodaeth y byddwch wedi'i nodi yn eich sesiwn flaenorol.

Ni fydd y ffurflen yn cael ei hanfon i Lywodraeth Cymru nes eich bod yn clicio ar 'Anfon' ar ddiwedd y broses. Unwaith eich bod wedi'i chyflwyno, ni fyddwch yn gallu gwneud newidiadau iddi gyda RPW Ar-lein.

Mae'n rhaid i chi anfon y ffurflen i Lywodraeth Cymru erbyn [REDACTED]. Ni fyddwch yn gallu anfon eich ffurflen ar ôl y dyddiad hwn hyd yn oed os ydych chi wedi dechrau ei llenwi'r ffurflen cyn [REDACTED].

Os oes gennych chi broblemau yn llenwi **Ffurflen Diweddariad am Brosiect ar Ddiwedd Blwyddyn Ariannol** yna gallwch chi gysylltu â'r '[Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid](#)' am ragor o gymorth.

Cofiwch wneud yn siŵr bod Manylion y Cwsmer a'r Dewisiadau Ar-lein a nodir isod yn gywir cyn anfon y ffurflen. Os ydyn nhw'n anghywir, gallwch eu newid nawr drwy glacio ar y dolenni Manylion y Cwsmer neu Dewisiadau Ar-lein isod.

#### Manylion y Cwsmer

Enw Masnachu

Cyfeiriad

Côd Post

Rhif Ffôn

Cyfeiriad e-bost

Nifer y Partneriaid

#### Dewisiadau Ar-lein

E-bost ynte neges destun (SMS)

Cyfeiriad e-bost

Rhif ffôn symudol

Dechrau

Canslo

## Parhau â Chais / Dechrau Eto

Pan fyddwch wedi dechrau llenwi'ch ffurflen Diweddariad am Brosiect ar Ddiwedd Blwyddyn Ariannol, bydd gennych yr opsiwn i'w gadael a mynd yn ôl yn nes ymlaen. Os ydych yn mynd yn ôl at ffurflen rydych eisoes wedi dechrau ei llenwi, byddwch yn gallu Parhau ar y sgrin hon (drwy glicio ar y botwm glas ar waelod y sgrin), neu Ddechrau Eto drwy glicio ar y ddolen a ddangosir ar y sgrinlun hwn.

### [Yn ôl i'r Cynnwys](#)

### Parhau â Chais parhau â chais neu hawliad

Rydych wedi gofyn am gael llenwi'r cais canlynol ar-lein: **Ffurflen Diweddariad am Brosiect ar Ddiwedd Blwyddyn Ariannol**. Rydych wrthi'n gweithio ar eich ffurflen. Cliciwch ar 'Parhau' i symud ymlaen â **Ffurflen Diweddariad am Brosiect ar Ddiwedd Blwyddyn Ariannol**.

Cewch ddewis dileu'ch **Ffurflen Diweddariad am Brosiect ar Ddiwedd Blwyddyn Ariannol** presennol a dechrau eto. Trwy wneud, byddwch yn dadwneud y newidiadau sydd wedi'u gwneud ers ichi ddechrau'ch **Ffurflen Diweddariad am Brosiect ar Ddiwedd Blwyddyn Ariannol** a llenwir y **Ffurflen Diweddariad am Brosiect ar Ddiwedd Blwyddyn Ariannol** newydd â'r data diweddaraf. Os ydych am wneud, cliciwch **Dechrau Eto**.

Bydd RPW Ar-lein yn gofyn i chi am yr wybodaeth sydd ei hangen ar y ffurflen. Drwy ddechrau llenwi'r ffurflen ar-lein, nid ydych yn ymrwmo i'w chyflwyno ar-lein; gallwch adael y broses ar unrhyw adeg. Os ydych chi'n gadael y ffurflen, gallwch ddychwelyd yn ôl ati rywbryd arall i'w chwblhau. Bydd RPW Ar-lein wedi arbed yr wybodaeth y byddwch wedi'i nodi yn eich sesiwn flaenorol.

Ni fydd y ffurflen yn cael ei hanfon i Lywodraeth Cymru nes eich bod yn clicio ar 'Anfon' ar ddiwedd y broses. Unwaith eich bod wedi'i chyflwyno, ni fyddwch yn gallu gwneud newidiadau iddi gyda RPW Ar-lein.

Sylwer – os byddwch yn dewis Dechrau Eto, bydd hyn yn ailosod yr holl gwestiynau ac yn dileu'r holl wybodaeth y byddwch wedi'i rhoi. Os ydych yn siŵr eich bod am ddechrau eto cliciwch ar Ydw, neu os nad ydych, cliciwch ar Nac ydw, fel y dangosir ar y sgrinlun hwn.

### Ffurflen Diweddariad am Brosiect ar Ddiwedd Blwyddyn Ariannol - Dileu / Dechrau Eto

Bydd yr opsiwan hwn yn dileu'ch cais **Ffurflen Diweddariad am Brosiect ar Ddiwedd Blwyddyn Ariannol** ac yn dadwneud yr **HOLL** newidiadau rydych wedi'u gwneud ers dechrau'ch **Ffurflen Diweddariad am Brosiect ar Ddiwedd Blwyddyn Ariannol**. Bydd hyn yn:

- dileu'r holl wybodaeth rydych wedi'i hychwanegu
- ailosod yr holl gwestiynau yr ydych wedi'u hateb

Pan gaiff y **Ffurflen Diweddariad am Brosiect ar Ddiwedd Blwyddyn Ariannol** hwn ei dileu, gallwch ddechrau **Ffurflen Diweddariad am Brosiect ar Ddiwedd Blwyddyn Ariannol**, newydd. Caiff ei llenwi â'r data diweddaraf.

**A ydych am fwrw ymlaen â'r opsiwn hwn?**

Cliciwch 'Ydw' i gadarnhau'ch bod am ddileu'ch **Ffurflen Diweddariad am Brosiect ar Ddiwedd Blwyddyn Ariannol** a dechrau eto.

Cliciwch 'Na' i gadw'r hyn rydych wedi'i roi ar eich **Ffurflen Diweddariad am Brosiect ar Ddiwedd Blwyddyn Ariannol** a dychwelyd i'r sgrin flaenorol.

### [Yn ôl i'r Cynnwys](#)


## Cyflwyniad

Diben y ffurflen hon yw caniatáu ichi roi gwybod inni eich bod yn rhagweld tanwariant ar y prosiect o gymharu â'r proffil ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/2021. Mae hefyd yn caniatáu ichi wneud cais i gael cario symiau a fydd heb eu gwario cyn 31/03/2021 ymlaen i flynyddoedd yn y dyfodol.

Bydd pob cais i gario gwariant ymlaen yn cael ei ystyried a byddwn yn rhoi gwybod i'r buddiolwr a fydd y cais wedi bod yn llwyddiannus ai peidio.

Os na fyddwch yn cyflwyno'r ffurflen hon erbyn y dyddiad cau, ni fyddwn yn ystyried ceisiadau i gario gwariant ymlaen.

Mae dolen at y Canllawiau hyn ar frig y sgrin ar y chwith.



Mae'r adrannau gwahanol i'w gweld ar y chwith. Mae croes goch yn golygu nad ydych wedi mynd i'r adran honno eto, neu fod camgymeriadau yn yr adran(nau). Bydd tic gwyrdd yn ymddangos pan fyddwch wedi llenwi pob adran a phan nad ydym yn gallu gweld unrhyw gamgymeriadau. Mae botymau gwe-lywio gwahanol ar frig ac ar waelod y ffurflen. Hefyd, os ydych am newid rhwng y Gymraeg a'r Saesneg, mae botwm i wneud hynny ar waelod y sgrin ar y chwith.

Ffurflen Diweddariad am Brosiect ar Ddiwedd Blwyddyn Ariannol

[Redacted] [Help ?](#)

- Cyflwyniad**
- Hysbysiad Preifatrwydd
- Manylion y Prosiect ✖
- > Cyflwyno

Ffurflen Diweddariad am Brosiect ar Ddiwedd Blwyddyn Ariannol

[Redacted] [Help ?](#)

- Cyflwyniad
- Hysbysiad Preifatrwydd
- Manylion y Prosiect** ✔
- > Cyflwyno

Pan fyddwch wedi cwblhau'r adran hon, cliciwch ar [Nesaf](#).

[Yn ôl i'r cynnwys](#)

## Hysbysiad Preifatrwydd

Y peth nesaf y byddwch yn ei weld fydd yr Hysbysiad Preifatrwydd. Gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen yr wybodaeth yn yr adran hon, oherwydd ei bod yn dweud at ba ddibenion y bydd y data rydych yn eu rhoi yn cael eu defnyddio. Mae'r ddolen yn y sgrinlun yn mynd â chi at yr hysbysiad preifatrwydd llawn ar gyfer y Ffurflen Diweddariad am Brosiect ar Ddiwedd Blwyddyn Ariannol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth a roddwch i brosesu'ch cais. Hi hefyd fydd y rheolydd data ar gyfer y data personol y byddwch yn eu rhoi. Mae angen inni gasglu'r wybodaeth hon er mwyn prosesu'ch cais. Efallai hefyd y bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth at ddibenion eraill, a fydd yn cynnwys dibenion sy'n gysylltiedig â'i swyddogaethau a'i dyletswyddau dan Bolisi Amaethyddol Cyffredin y Gymuned Ewropeaidd. Os na fyddwch yn darparu'r holl wybodaeth y gofynnir amdani, mae'n bosibl na fyddwn yn gallu prosesu'ch cais.

Wrth inni broseu'ch cais, efallai y bydd angen inni rannu'r wybodaeth a roddwch gyda'r cyrff a ganlyn:

- Asiantaethau Atal Twyll
- Awdurdodau rheoleiddio, fel Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, awdurdodau lleol a'r heddlu

Mae gennych yr hawliau a ganlyn:

- Yr hawl i weld y data personol yr ydym yn eu prosesu amdanoch;
- Yr hawl i sicrhau ein bod yn cywiro unrhyw gamgymeriadau yn y data hynny;
- Yr hawl (o dan amgylchiadau penodol) i wrthwynebu prosesu'r wybodaeth;
- Yr hawl (o dan amgylchiadau penodol) i ofyn am ddileu'ch data;
- Yr hawl i gofrestru cwyn yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth sydd gan Lywodraeth Cymru ac am sut mae'n cael ei defnyddio, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y GDPR, mae'r manylion cyswllt i'w gweld isod:

Swyddog Diogelu Data:

Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
CAERDYDD  
CF10 3NQ

Cyfeiriad e-bost: [dataprotectionofficer@llyw.cymru](mailto:dataprotectionofficer@llyw.cymru)

Dyma'r manylion cyswllt at gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Swydd Gaer  
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113

Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Caiff y data eu cadw am gyfnod sy'n unol â'r gofynion yn Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) rhif 908/2014, 'Cadw Gwybodaeth Gyfrifyddu'.

[Yn ôl i'r cynnwys](#)



## Manylion y Prosiect

Yr adran nesaf yw'r adran ar fanylion y Prosiect. Mae'r sgrinlun cyntaf yn dangos rhan uchaf yr adran honno. Mae'n gofyn ichi, "Ydych chi'n cyflwyno hawliadau ar gyfer y prosiect hwn drwy WEFO ar-lein".

Os yw'ch prosiect yn un i Reoli Maethynnau dan y Grant Cynhyrchu Cynali, byddwch yn cyflwyno'ch hawliadau drwy RPW Ar-lein. Felly, byddwch yn ateb "Nac ydw" i'r cwestiwn hwn ac ni fydd angen ichi roi rhif adnabod achos.

### Manylion y Prosiect

Ydych chi'n cyflwyno hawliadau ar gyfer y prosiect hwn drwy WEFO Ar-lein?\*

Ydw  Nac ydw

Rhowch eich Rhif Adnabod Achos ar PPIMS\*

Fodd bynnag, os byddwch yn ateb "Ydw", bydd angen ichi roi eich rhif adnabod achos ar PPIMS, sef y rhif 5-digid.

Rhowch eich Rhif Adnabod Achos ar PPIMS\*

Yn y cwestiwn nesaf, bydd angen ichi nodi cyfanswm yr arian nad ydych yn disgwyl ei wario erbyn 31 Mawrth 2021.

Cyfalaf (£) – nodwch y swm

Refeniw (£) – nodwch y swm

Y gwariant yr ydych yn rhagweld na fydd yn cael ei wario ar y prosiect yn unol â'r proffil gwariant erbyn 31 Mawrth 2021.

Cyfalaf (£)

Refeniw (£)

Os nad ydych am gario unrhyw arian fydd heb e wario ymlaen o flwyddyn ariannol 2020-2021, byddwch yn ateb "Nac oes" i'r cwestiwn nesaf. Bydd yr arian yn cael ei ddadneilltuo ac ni fydd ar gael bellach ar gyfer y prosiect.

Y gwariant yr ydych yn rhagweld na fydd yn cael ei wario ar y prosiect yn unol â'r proffil gwariant erbyn 31 Mawrth 2021.

Cyfalaf (£)

Refeniw (£)

### Cario Ymlaen

Oes angen cario gwariant sydd heb ei wario ar y prosiect ymlaen o flwyddyn ariannol 2020 / 2021?\*

Oes  Nac Oes

Fodd bynnag, os ydych am gario arian fydd heb ei wario ymlaen o flwyddyn ariannol 2020-2021, bydd angen ichi roi rheswm manwl dros yr amgylchiadau arbennig sy'n golygu na fyddwch wedi gwario'r arian erbyn 31 Mawrth 2021 yn unol â'r proffil cyflawni ar gyfer eich prosiect.

**Cario Ymlaen**

Oes angen cario gwariant sydd heb ei wario ar y prosiect ymlaen o flwyddyn ariannol 2020 / 2021?\*

Oes  Nac Oes

Rhowch fanylion yr Amgylchiadau Eithriadol\*

4 / 1000

Ar gyfer yr ail gwestiwn, mae angen disgrifio'r effaith a gaiff peidio â chario'r arian ymlaen i'r flwyddyn/blynyddoedd ariannol nesaf.

Faint o wariant yr hoffech iddo gael ei gario ymlaen i flwyddyn ariannol 2021 / 2022?

Cyfalaf (£)

Refeniw (£)

Faint o wariant yr hoffech iddo gael ei gario ymlaen i flwyddyn ariannol 2022 / 2023?

Cyfalaf (£)

Refeniw (£)

Faint o wariant yr hoffech iddo gael ei gario ymlaen i flwyddyn ariannol 2023 / 2024?

Cyfalaf (£)

Refeniw (£)

Cyfanswm y gwariant i'w gario ymlaen

Cyfalaf (£)

Refeniw (£)

**Y Gwariant i'w Ddadneilltuo**

Y gwariant yr ydych yn rhagweld y bydd yn cael ei ddadneuillto ac na fydd ar gael i'r prosiect mwyach

Cyfalaf (£)

Refeniw (£)

Bydd y system yn cyfrifo faint o arian nad oes angen iddo gael ei gario ymlaen, sef y gwahaniaeth rhwng faint o arian fydd heb ei wario a chyfanswm y gwariant i'w gario ymlaen yn y tair blynedd ariannol.

Y Gwariant i'w Ddadneilltuo	
Y gwariant yr ydych yn rhagweld y bydd yn cael ei ddadneuilltuo ac na fydd ar gael i'r prosiect mwyach	
Cyfalaf (£)	0.00
Refeniw (£)	2000.00

## Cyflwyno

### Camgymeriadau, Gwybodaeth a Chrynodeb

Bydd yr adran nesaf yn dangos unrhyw Gamgymeriadau ar eich ffurflen, a Chrynodeb o'r ffurflen Diweddariad am Brosiect ar Ddiwedd Blwyddyn Ariannol. (**Sylwer:** Ni fydd unrhyw Negeseuon Gwybodaeth yn ymddangos ar y ffurflen).

Mae'r sgrinlun canlynol yn dangos y neges a fydd yn ymddangos os nad oes unrhyw gamgymeriadau.

Camgymeriadau, Gwybodaeth a Chrynodeb
<p><b>Pwysig</b> - Darllenwch y Crynodeb hwn. Sgrolwch i lawr os oes angen.</p>
<p>Nid oes Gwallau na Negeseuon Gwybodaeth.</p>

Os oes unrhyw gamgymeriadau, byddwch yn gweld y neges a ddangosir yn y sgrinlun isod.

Mae camgymeriadau ar eich ffurflen. Edrychwch eto a chywirwch unrhyw gamgymeriadau.
---

### Datganiadau ac Ymrwymadau

Darllenwch yr adran Datganiadau ac Ymrwymadau yn y sgrinlun isod, a phan fyddwch wedi gwneud hynny, ticiwch y blwch ar y gwaelod i gadarnhau eich bod yn cytuno i'r rhain.

Datganiadau ac Ymrwymadau < Yn ôl

Os ydych yn derbyn y datganiadau a'r ymrwymadau, ticiwch y bocs.

**Rwyf yn cadarnhau:**

Fy mod wedi darllen a deall y Nodiadau Canllaw ar Sut i Lenwi'r ffurflen, gan gynnwys y nodiadau am ddatgelu data, ac fy mod yn caniatáu i Lywodraeth Cymru ddefnyddio fy ngwybodaeth i gefnogi fy nghais.

Fy mod wedi rhoi manylion sy'n wir, yn gywir ac yn gyflawn hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred.

Rwy'n deall mai dim ond er mwyn helpu i lenwi a chyflwyno'r furflen y mae Llywodraeth Cymru yn dangos negeseuon 'Camgymeriad' a 'Gwybodaeth' yn yr adrannau o'r ffurflen.

Rwyf yn cytuno i'r datganiadau a'r ymrwymadau uchod \*

## Cyflwyno

Pan fyddwch wedi gorffen llenwi'r ffurflen Diweddariad am Brosiect ar Ddiwedd Blwyddyn Ariannol, cliciwch ar y botwm Cyflwyno.

Cyflwyno <

Cliciwch y botwm isod i anfon eich Ffurflen Diweddariad am Brosiect ar Ddiwedd Blwyddyn Ariannol.

**Cyflwyno**

Bydd Neges â chopi o'r Ffurflen Diweddariad am Brosiect ar Ddiwedd Blwyddyn Ariannol rydych wedi'i chyflwyno ar gael ar dudalen eich Negeseuon ar-lein cyn pen un diwrnod gwaith.

## Cadarnhau Cyflwyno

Bydd neges Cadarnhau Cyflwyno yn ymddangos, fel y dangosir yn y sgrinlun isod. Dylech brintio neu gadw'r dudalen Cadarnhau Cyflwyno drwy ddewis y botwm Printio'r sgrin hon sydd i'w weld yn y sgrinlun. Cliciwch ar y botwm Gadael i adael y ffurflen a mynd yn ôl i RPW Ar-lein.

Bydd copi o'ch arolwg yn ymddangos ar eich cyfrif RPW Ar-lein ymhen un diwrnod gwaith.

Cadarnhau Cyflwyno'r Ffurflen

Ffurflen Diweddariad am Brosiect ar Ddiwedd Blwyddyn Ariannol : Rhif Cyfeirnod: [REDACTED]

[REDACTED]

**Printio'r Sgrin hon**

**Gadael**

Bydd neges ac ynddi gopi o'ch ffurflen Diweddariad am Brosiect ar Ddiwedd Blwyddyn Ariannol yn ymddangos ar eich cyfrif RPW Ar-lein ymhen un diwrnod gwaith.

[Yn ôl i'r Cynnwys](#)